

Penderfynwch pa fath o incwm gwarantedig rydych ei eisiau Blwydd-daliadau

Ychydig iawn oeddwn i'n ei wybod am flwydd-daliadau. Awgrymwyd y dylwn i ddechrau edrych a meddwl gan fy mod i mewn oedran pan yw fy mhensiwn ar gael i mi.

Fe drafodais y peth gyda fy ffrindiau yn gyntaf oherwydd eu bod i gyd o oedran tebyg i mi. Ond yn y pen draw, fi fy hun ddewisodd.

Os oes gan rywun ddiddordeb mewn cael yr incwm mwyaf posibl yna mae'n hollol hanfodol chwilio am y fargen orau.

A minnau ar fin dod yn nain digwyddodd rhywbeth i mi a wnaeth i mi feddwl, gwna rhywbeth gyda'r swm hwn o arian.

Roeddwn am wneud rhywbeth, a chael y peth drosodd a theimlo'n ddiogel. A dyna'n union sut yr wyf yn teimlo. Yn gyntaf fe es i weld cynghorydd ariannol annibynnol.

Fe wnes i ddysgu ychydig yno ac wedyn fe wnes i ymchwil llawn ar y rhyngwrwyd. Bu cael gwybodaeth gennyh chi o fudd mawr i mi.

Fy mhrif gyfrifoldeb yw sicrhau bod fy ngwraig yn cael ei diogelu yn llawn. Pwy bynnag yw eich darparwr pensiwn, ewch i weld beth sydd ganddo i'w gynnig i chi.

Yna edrychwch ar-lein i weld a oes unrhyw beth gwell ar gael yno. Ond yn y pen draw, rhaid cael eich cynghorydd ariannol wrth eich ochr a bydd ef yn dweud wrthyh chi pa un yw'r gorau ar eich cyfer neu os gall ddod o hyd i rywbeth gwell. Mi wnes i siarad â rhai pobl a siarad am bethau oherwydd roedden nhw ychydig flynyddoedd yn hŷn, felly roeddwn i'n meddwl efallai eu bod nhw wedi bod trwy hyn.

Ond mewn gwirionedd, doedden nhw ddim, er eu bod nhw'n ail feddwl erbyn hyn, neu efallai dylen nhw fod wedi ac efallai y medren nhw ei ystyried o hyd gan ei fod yn benderfyniad mawr

Mae'n benderfyniad eithaf pwysig. Ychydig iawn oeddwn i'n ei wybod am flwydd-daliadau i fod yn onest. Fe ddywedodd fy ngŵr bod raid i ni ddechrau ystyried beth yr ydym am ei wneud â'n pensiwn. Yna ysgogodd fy ngŵr i mi wneud rhywbeth am y peth.

Fe fyddwn yn mynd ar-lein a chwilio am unrhyw wybodaeth yr wyf yn teimlo fy mod ei hangen. Mi roddodd syniad i mi, mae'n debyg, o beth yn union oeddwn i'n chwilio amdano.

Rhaid i chi fod yn siŵr eich bod yn hyderus a'ch bod yn ymwybodol o'r hyn yr ydych yn ei brynu cyn i chi arwyddo'r darn papur a dweud iawn, dyma beth yr wyf i am ei wneud gan ei fod, mewn gwirionedd, yn flwydd-dal am oes

Felly unwaith i chi wneud hynny, gwnewch yn hollol siŵr cyn mynd amdani. Mae'n rhaid i chi chwilio am y fargen orau, mae'n rhaid i chi chwilio, siarad â phobl, pobl hŷn sydd wedi ymddeol, sydd wedi cymryd blwydd-daliadau. Nhw yw'r gorau gan eu bod nhw wedi bod trwy'r cyfan eu hunain.

Gofynnwch am y ffeithiau a'r ffigurau sy'n gysylltiedig â'u hamgylchiadau. Siaradwch â chynghorydd ariannol i wirio bod popeth yr ydych wedi penderfynu arno yn iawn, oherwydd dim ond un cynnig gewch chi arni, felly gwnewch y peth yn iawn.